# Amserlen Cynllun Cefnogi Dysgu Personol

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

DECHRAU

Gall myfyrwyr gofrestru am Gynllun Cefnogi Dysgu Personol cyn dechrau eu cwrs, ac ar unrhyw adeg yn ystod eu cwrs.

Mae'n **rhaid iddynt ddarparu tystiolaeth ddogfennol o bob cyflwr yr hoffent i'r Cynllun Cefnogi Dysgu Personol ei gynnwys.**

Ysgrifennir Cynllun Cefnogi Dysgu Personol gan gynghorydd yn seiliedig ar y cyflyrau sydd wedi eu cynnwys yn y dystiolaeth ddogfennol.

*I sefyllfaoedd anarferol neu gymhleth, yn enwedig rhai sy'n gysylltiedig ag asesu neu waith maes/lleoliadau, bydd cynghorwyr yn cysylltu â'r ysgol ynglŷn ag addasiadau priodol.*

Gofynnir i'r myfyriwr wirio a chymeradwyo'r Cynllun Cefnogi Dysgu Personol.

Rhoddir 5 diwrnod iddynt cyn i'r Cynllun Cefnogi Dysgu Personol gael ei gyhoeddi ar y system yn awtomatig.

*Ceir rhai eithriadau i hyn, pan na fydd y Cynllun Cefnogi Dysgu Personol yn cael ei gyhoeddi heb gydsyniad gweithredol y myfyriwr.*

Mae Cynlluniau Cefnogi Dysgu Personol yn ddogfennau 'byw' ac yn parhau i fod yn weladwy i staff trwy gydol cwrs y myfyriwr.

Gellir adolygu a diweddaru Cynlluniau Cefnogi Dysgu Personol yn ôl yr angen i adlewyrchu newidiadau yng nghyflwr y myfyriwr, neu i ychwanegu manylion sydd eu hangen i weithgaredd/strategaeth dysgu ac addysgu newydd.

GORFFEN

# Gwybodaeth gysylltiedig: Beth yw Cynllun Cefnogi Dysgu Personol a sut mae myfyriwr yn cael un?

**Beth yw Cynllun Cefnogi Dysgu Personol?**

Mae Cynllun Cefnogi Dysgu Personol yn cynnwys yr addasiadau rhesymol y mae'n ofynnol i'r brifysgol eu gwneud o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

- *Mae dilyn yr addasiadau rhesymol sydd wedi eu cynnwys mewn Cynllun Cefnogi Dysgu Personol yn sicrhau eich bod yn bodloni eich rhwymedigaethau cyfreithiol unigol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2021.*
- *Mae'r system Cynllun Cefnogi Dysgu Personol wedi ei theilwra'n benodol i Fangor ac mae'n dwyn ynghyd yr holl addasiadau rhesymol mewn un gwasanaeth ar-lein hawdd ei gyrchu.*

**Hanfodion cael Cynllun Cefnogi Dysgu Personol**

Er mwyn cael Cynllun Cefnogi Dysgu Personol, **rhaid** i fyfyriwr wneud y canlynol:

Cofrestru gyda'r Gwasanaethau Anabledd (mae hyn yn cynnwys rhoi'r caniatâd perthnasol i rannu)

Darparu tystiolaeth ddogfennol (rhoddir arweiniad i fyfyrwyr sy'n cofrestru ond heb ddarparu tystiolaeth ynglŷn â chasglu tystiolaeth.)

**Rhannu gwybodaeth**

Rhennir y wybodaeth ar sail angen gwybod yn dibynnu ar waith yr aelod staff gyda'r myfyriwr hwnnw, e.e. bydd tiwtor personol yn gweld y Cynllun Cefnogi Dysgu Personol cyfan, ond bydd trefnydd modiwl ddim ond yn gweld yr adrannau addysgu a dysgu ac asesu a bydd staff neuaddau ddim ond yn gweld y wybodaeth sy'n berthnasol iddynt hwy.

Am ragor o wybodaeth cliciwch ar Pwy fydd yn gweld fy CCDP yma: https://www.bangor.ac.uk/studentservices/disability/personal_learning_support.php.cy

**Sut mae'r Gwasanaethau Anabledd yn sicrhau bod y myfyrwyr yn gwneud yr hyn sydd ei angen i gael Cynllun Cefnogi Dysgu Personol?**

Anogir myfyrwyr sydd wedi cysylltu â'r Gwasanaethau Anabledd neu sydd wedi cael eu cyfeirio atom i gofrestru a darparu tystiolaeth. Anfonir nodiadau atgoffa lle bo angen.

- *Anogir ymgeiswyr sy'n nodi cod anabledd ar eu ffurflen UCAS i gofrestru fel y gall eu Cynllun Cefnogi Dysgu Personol fod yn barod cyn iddynt ddechrau eu cwrs.*
- *Anogir unigolion a allai fod yn gymwys i gael Lwfans Myfyrwyr Anabl i wneud cais amdano (gweler ein siart llif Lwfans Myfyrwyr Anabl am fanylion)*